**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4042 (CYLCHFAN PONT-Y-PŴL I GYLCHFAN COURT FARM, TORFAEN) (TERFYN CYFLYMDER 50 MYA DROS DRO) 2025**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ar gefnffordd yr A4042 neu gerllaw iddi rhwng Cylchfan Pont-y-pŵl a Chylchfan Court Farm, Torfaen.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder 50 mya dros dro ar y darnau o gefnffordd yr A4042 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 4 Awst 2025. Disgwylir y bydd y cyfyngiad dros dro, a ddangosir gan arwyddion ffordd, yn weithredol o 00:01 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw ac yn parhau mewn grym am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M J CLARKE**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 36 o fetrau i'r de o Gylchfan Pont-y-pŵl hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol y gylchfan honno.

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Pont-y-pŵl hyd at bwynt 216 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gylchfan honno.

Cerbytffordd gylchredol gyfan Cylchfan Pont-y-pŵl.

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 45 o fetrau i'r de o'i chyffordd ag ochr de-ddwyreiniol Cylchfan Court Farm hyd at ei chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Pont-y-pŵl.

**THE A4042 TRUNK ROAD (PONTYPOOL ROUNDABOUT TO COURT FARM ROUNDABOUT, TORFAEN) (TEMPORARY 50 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2025**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary due to the likelihood of danger to the public on or near the A4042 trunk road between Pontypool and Court Farm Roundabouts, Torfaen.

The effect of the Order is to impose a temporary 50 mph speed limit on the lengths of the A4042 trunk road specified in the Schedule to this Notice.

The Order comes into force on 4 August 2025. The temporary restriction, which will be indicated by traffic signs, is expected to operate from 00:01 hours on that date and to remain in force for a maximum duration of 12 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M J CLARKE**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE**

The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from a point 36 metres south of Pontypool Roundabout to its junction with the southern side of that roundabout.

The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the north-eastern side of Pontypool Roundabout to a point 216 metres north-east of that roundabout.

The entire circulatory carriageway of Pontypool Roundabout.

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from a point 45 metres south of its junction with the south-eastern side of Court Farm Roundabout to its junction with the north-eastern side

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Pont-y-pŵl hyd at bwynt 40 o fetrau i'r de o'r gylchfan honno.

of Pontypool Roundabout.

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the southern side of Pontypool Roundabout to a point 40 metres south of that roundabout.